Cofnodion cyfarfod arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 21 Mawrth 2016 am 7:00p.m.

**PRESENNOL**: Cynghorydd Anne Roberts (Maer)
Cynghorwyr Stephen Beach, James Bryan, Elisabeth Culshaw, June Derry, Ken Hawkins, Menna Jones, Simeon Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Geraint Woolford, Heather Williams ac Emrys Wynne.
Hefyd y Cynghorydd Sir Bobby Feeley.

## 196. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Bob Costain.

## 197. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 198. ADRODDIAD Y MAER

Hysbysodd y Maer yr aelod am farwolaeth y cyn Gynghorydd Tref Elizabeth Downs, ac y byddai ei hangladd yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth am 11am yn Eglwys Sant Pedr. Safodd yr aelodau a phawb a oedd yn bresennol i dalu teyrnged yn ystod munud o dawelwch. Adroddodd y Maer ei bod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn ers y cyfarfod diwethaf:

25/02 Cyfarfod â Bespoke Fitness ynghylch Ras Siôn Corn arfaethedig
Noson codi arian yn Lifestyle
26/02 Ymweliad gyda Darren Millar AC i Workplace Worksafe
27/02 Bore coffi yn y Myddelton Grill ar ran Age Connects
28/02 Beirniadu cystadleuaeth addurno ffenestri Gŵyl Dewi Menter Iaith Sir Ddinbych a chyflwyno tystysgrifau i'r enillwyr
29/02 Cyfarfod Ymlaen Rhuthun
08/03 Cyfarfod Tîm y Dref
09/03 Lifestyle – tynnu'r raffl ar gyfer elusennau'r Maer
10/03 Ysgol Borthyn – prosiect Atgofion Rhuthun
14/03 Ymweld â Chanolfan Llanfwrog yng nghyswllt y tendr torri glaswellt
17/03 Lansio gwefan a logo newydd y dref, Canolfan Gymuned Llanfwrog
20/03 Dathliadau pen-blwydd Cwbiaid Rhuthun yn 100 oed, Cae Ddôl
21/03 Cyfarfod ar y safle gyda Groundworks North West, Caeau Chwarae Coffa

## 199. ADRODDIADAU'R AELODAU

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Stephen Beach | Noson codi arian yn Lifestyle, bore coffi Age Connects, cyfarfod llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos, lansio gwefan a logo newydd y dref a dathliadau pen-blwydd Cwbiaid Rhuthun yn 100 oed, Cae Ddôl. |
| Cynghorydd James Bryan | Cyfarfod pwyllgor rheoli Awelon, pwyllgor ac is-bwyllgorau Gŵyl Rhuthun a lansio gwefan a logo newydd y dref. |
| Cynghorydd Elisabeth Culshaw | Cyfarfod pwyllgor rheoli Awelon, bore coffi Age Connects a lansio gwefan a logo newydd y dref. |
| Cynghorydd June Derry | Bore coffi Age Connects a lansio gwefan a logo newydd y dref. |
| Cynghorydd Ken Hawkins | Noson codi arian yn Lifestyle, bore coffi Age Connects, gwasanaethu'r clociau gan gwmni Smith's of Derby a lansio gwefan a logo newydd y dref. |
| Cynghorydd Menna Jones | Eisteddfod Cylch Rhuthun Urdd Gobaith Cymru, Ysgol Borthyn – prosiect Atgofion Rhuthun, ymweld â Chanolfan Llanfwrog yng nghyswllt y tendr torri glaswellt, lansio gwefan a logo newydd y dref, archwiliad Llys Marchan ac Eisteddfod Sir yr Urdd – ysgolion cynradd. |
| Cynghorydd Ian Lewney | Bore coffi Age Connects, cyfarfod Tîm y Dref, Ysgol Borthyn – prosiect Atgofion Rhuthun a lansio gwefan a logo newydd y dref. |
| Cynghorydd Robert Owen-Ellis | Banc Bwyd x 4, tywys myfyrwyr Bagloriaeth Cymru Blwyddyn 10 o Ysgol Brynhyfryd o gwmpas y Banc Bwyd a buont yn cynorthwyo i lenwi |

| | |
|---|---|
| | bocsys a phecynnau bwyd, lansio gwefan a logo newydd y dref a chyfarfod corff llywodraethol Ysgol Pen Barras. |
| Cynghorydd Geraint Woolford | Cyfarfod gyda'r Maer a'r Clerc â Bespoke Fitness ynghylch Ras Siôn Corn arfaethedig, cynrychioli'r Maer yng Nghinio Macmillan yn Llys Erw, ymweld â Chanolfan Llanfwrog yng nghyswllt y tendr torri glaswellt, cyfarfod pwyllgor Gŵyl Rhuthun, lansio gwefan a logo newydd y dref, Canolfan Gymuned Llanfwrog, dathliadau pen-blwydd Cwbiaid Rhuthun yn 100 oed, Cae Ddôl a chyfarfod ar y safle gyda Groundworks North West, Caeau Chwarae Coffa. |
| Cynghorydd Emrys Wynne | Lansio gwefan a logo newydd y dref and logo a chyfarfod ar y safle gyda Groundworks North West, Caeau Chwarae Coffa. |
| Cynghorydd Heather Williams | Cyfarfod Fforwm Twristiaeth Sir Ddinbych a lansio gwefan a logo newydd y dref. |

## 200. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2016 yn gywir, yn amodol ar gywiro hepgor bod y Cynghorydd Menna Jones yn bresennol yn agoriad swyddogol y Stiwdio yng Nghanolfan Hamdden Rhuthun.*

## 201. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## 202. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Gadeirydd y cyfarfod gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2016.

***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod. Dywedodd yr aelodau a fu mewn cyfarfod ar y safle yn y Caeau Chwarae Coffa â chynrychiolydd o Groundworks North West ynghylch y risgiau a nodwyd yn yr adroddiad archwiliad diogelwch y gofynnwyd am brisiau am arwyneb 'wetpour' a/neu darmac lle'r arferai'r chwyrligwgan fod.*

## 203. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Gadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2016.

***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

## 204. CONTRACT TORRI GLASWELLT 2016

Cadarnhaodd aelodau'r Pwyllgor Amwynderau wnaeth ymweld â Chanolfan Gymuned Llanfwrog eu bod wedi gweld yr offer a'u bod yn fodlon fod y staff arfaethedig ar gyfer y contract wedi derbyn hyfforddiant priodol. Byddai dyfarnu'r contract i Gwmni Budd Cymunedol Llanfwrog yn arwain at gyflogi pobl leol ac incwm ychwanegol i'r Ganolfan a chymeradwywyd dyfarnu'r contract torri glaswellt i'r Ganolfan.

***PENDERFYNWYD**: dyfarnu'r contract torri glaswellt i Gwmni Budd Cymunedol Llanfwrog.*

## 205. YMGYRCH GLANHAU'R DREF

Members were asked to note that the date for the 2016 Town Clean Up Campaign is Saturday, 30 April 2016.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r dyddiad a bod gwirfoddolwyr i gyfarfod ym maes parcio Cae Ddôl am 10am.*

## 206. DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y CYNLLUN PLANNU BLODAU GWYLLT YNG NGHANOLFAN GREFFT RHUTHUN

Cyflwynodd y Clerc neges e-bost a dangosodd luniau gan Jane Gerrard, Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolfan Grefft Rhuthun, yn rhoi diweddariad ar y cynllun plannu blodau gwyllt.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r diweddariad.*

## 207. DIWEDDARIAD YNGHYLCH CAIS CYLLIDO GRŴP CADWRAETH CASTELL RHUTHUN I CADW

Hysbyswyd yr aelodau fod y cais cyllido dechreuol i CADW wedi bod yn aflwyddiannus ond bod y grŵp yn bwriadu gwneud cais arall a gofynnwyd i Gyngor Tref Rhuthun drosglwyddo'r cyfraniad arfaethedig i flwyddyn ariannol 2016/17.

***PENDERFYNWYD**: trosglwyddo'r cyfraniad ariannol i 2016/17.*

## 208. ENWEBIADAU AR GYFER MAES A DIRPRWY FAER 2016/17

Gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno enwebiadau. Cynigiodd y Cynghorydd Emrys Wynne y Cynghorydd Geraint Woolford fel Maer ar gyfer 2016/17, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Elisabeth Culshaw. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill. Cynigiodd y Cynghorydd Stephen Beach y Cynghorydd James Bryan fel Dirprwy Faer, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Simeon Jones. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill.

***PENDERFYNWYD**: derbyn yr enwebiadau yn unfrydol.*

## 209. IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau awgrymu dyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Is-bwyllgor Archwilio Ariannol.

***PENDERFYNWYD**: cynnal cyfarfod ar 18 Ebrill 2016 am 2pm yn Neuadd y Dref.*

## 210. GOHEBIAETH

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a nodi gohebiaeth oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych, Is-adran Democratiaeth Leol Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews AC, Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru, Cadwyn Clwyd a Hosbis San Cyndeyrn.

***PENDERFYNWYD**: nodi'r ohebiaeth a gohirio cais Hosbis San Cyndeyrn i gyfarfod cymorth ariannol mis Rhagfyr.*

## 211. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

i. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am £500 o gymorth ariannol gan Glwb Rotari Rhuthun tuag at y Ffair Wledig i'w chynnal ar 13 Awst 2016.

***PENDERFYNWYD**: rhoi £500 tuag at y digwyddiad uchod.*

ii. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am £5,000 o gymorth ariannol tuag at brosiect £43,000 i osod lifft a grisiau gan Gymdeithas Cymuned Llanfwrog Community Association.

***PENDERFYNWYD**: gohirio'r cais tan y cyfarfod nesaf i ganiatáu amser i ystyried y prosiect arfaethedig yn fanwl.*

## 212. CAIS AM GYFRANIAD

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gyfraniad blynyddol o £500 gan Gymdeithas Sioe Rhuthun.

***PENDERFYNWYD**: cefnogi'r cais mewn egwyddor, yn amodol ar dderbyn ffurflen wedi'i llenwi a chyfrifon y Gymdeithas.*

## 213. PENODI ARCHWILYDD MEWNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried penodiad JDH Business Services Ltd fel Archwilydd Mewnol ar gost o £255 + TAW.

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r penodiad.*

## 214. GRŴP GWOBRAU DINESYDD DA A PHERSON IFANC Y FLWYDDYN

Gofynnwyd i'r aelodau bennu dyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Grŵp uchod i drafod yr enwebiadau a gwneud argymhellion i Gyngor Tref Rhuthun.

***PENDERFYNWYD**: cyfarfod ar ôl 12 Ebrill. Bydd y Clerc yn anfon manylion i aelodau'r Grŵp.*

## 215. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd y Clerc, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, y Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 29 Chwefror 2016.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

## 216. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: awdurdodi talu'r cyfrifon a ganlyn.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 865 | Fineline | 500 pennawd llythyr A4 dau liw | * | 137.86 |
| 866 | Cyngor Sir Ddinbych | Ad-daliad benthyciad y parc sgrialu rhif 5 (o 7) | | 7,880.00 |
| 867 | Cronfa Bensiwn Clwyd | Cyfradd cyfraniad cyflogwr cynllun pensiwn newydd – un cyflogai | * | 1,080.00 |
| 868 | Sandra Williams | Ad-daliad am brynu'r enwau gwefannau visitruthin.wales a visitrhuthun.cymru | * | 157.04 |
| 869 | Sandra Williams | Ad-daliad am brynu bagiau siopa cotwm a beiros gan Redbows Ltd ar gyfer noson lansio'r wefan | * | 516.00 |
| 870 | Marian Rees | Cyfieithu ar y pryd | * | 108.00 |
| 871 | Cyllid y Wlad | Treth incwm ac Yswiriant Gwladol | | 259.43 |
| 872 | Urdd Gobaith Cymru | Cyfraniad i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Fflint | | 100.00 |
| D.D. | BT | Gwasanaethau ffôn | * | 99.77 |
| 873 | Sandra Williams | Costau teithio a chyflog sy'n ddyledus | | 47.61 |

(Mae'r eitemau wedi eu nodi â * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £331.78)

## 217. RHAN DAU – CYFLOG CLERC Y DREF

Cyflwynwyd manylion cyflog Clerc y Dref i'r aelodau.

***PENDERFYNWYD**: derbyn manylion cyflog Clerc y Dref.*

## 218. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fel dydd Llun, 25 Ebrill 2016.*